Rhif: WG 40017

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Cais am Dystiolaeth: Adolygiad o Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn, yn corffori Ansawdd Aer a Seinwedd

Dyddiad cyhoeddi: 10 Chwefror 2020
Camau gweithredu angenrheidiol: Ymatebion erbyn 4 Mai 2020

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron

Trosolwg	Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddarparu rhagor o ganllawiau polisi a chyngor technegol i gefnogi'r polisi cynllunio newydd ym Mholisi Cynllunio Cymru o ran ansawdd aer a seinwedd. Gwneir hyn drwy adolygu Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn (TAN 11) a llunio TAN 11 newydd yn ymwneud ag ansawdd aer a seinwedd yn ogystal â llygredd sŵn. Mae'r cais hwn am dystiolaeth yn gofyn am wybodaeth, tystiolaeth a safbwyntiau i helpu i ddatblygu'r TAN newydd. Mae rhai cwestiynau ag iddynt ffocws penodol yn y ddogfen hon i lywio'r wybodaeth a ddarperir.
Sut i ymateb	Dyddiad cau'r ymgynghoriad yw 4 Mai 2020. Gallwch ymateb mewn unrhyw un o'r ffyrdd isod. **E-bost:** Llenwch y ffurflen ymateb i gais am dystiolaeth a'i hanfon i: planconsultations-c@llyw.cymru **Drwy'r post:** Llenwch y ffurflen ymgynghori a'i hanfon i: Ymgynghoriad ar Bolisi Cynllunio Cymru Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ
Rhagor o wybodaeth a dogfennau perthnasol	**Gellir cael y ddogfen hon mewn print bras ac mewn ieithoedd eraill yn ôl y gofyn.** Polisi Cynllunio Cymru ar hyn o bryd https://llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru

Manylion Cyswllt Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â:

Joanne Smith neu Martin McVay
planconsultations-c@llyw.cymru
0300 025 1128 neu 0300 025 9145

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a roddwch fel rhan o'ch ymateb i'r cais am dystiolaeth. Bydd Gweinidogion Cymru yn prosesu'r wybodaeth bersonol hon yn unol â'u pwerau statudol er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch sut y maen nhw'n arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn neu wrth gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru am ddadansoddi'r ymatebion ymhellach, efallai y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan drydydd parti achrededig (er enghraifft, sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Dim ond o dan gontract y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion llym ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod y cais am dystiolaeth wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, caiff enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn hepgor y manylion hynny. Dylech hefyd wybod am ein dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Fel arall, ni chedwir eich data gan Lywodraeth Cymru am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

• i gael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch ac i'w gweld;
• i fynnu ein bod yn cywiro unrhyw beth anghywir yn y data hynny;
• (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu prosesu'r data neu gyfyngu ar hynny
• (o dan rai amgylchiadau) i ofyn inni 'ddileu' eich data;
• i ofyn (o dan amgylchiadau penodol) inni drosglwyddo'ch data i gorff arall; ac
• i gofrestru cwyn yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheolydd annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru'n ei chadw a sut mae'n cael ei defnyddio, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:
Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost: Data.ProtectionOfficer@gov.wales
Manylion cysylltu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Beth sydd dan sylw?

Cyhoeddwyd fersiwn newydd o *Bolisi Cynllunio Cymru*: Argraffiad 10 (PCC) ym mis Rhagfyr 2018 i adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r polisi yn sicrhau bod y system gynllunio yn cyfrannu gymaint â phosibl at gyflawni'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio a ddiffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan greu lleoedd cynaliadwy drwy wneud hynny.

Caiff PCC ei ategu gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol a chanllawiau eraill sydd gyda'i gilydd yn creu'r polisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddarparu rhagor o ganllawiau polisi a chyngor technegol i gefnogi'r polisi cynllunio newydd yn PCC o ran ansawdd aer a seinwedd. Gwneir hyn drwy adolygu Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn (TAN 11) a llunio TAN 11 newydd yn ymwneud ag ansawdd aer a seinwedd yn ogystal â llygredd sŵn.

Diben y cais am dystiolaeth

Bydd y TAN 11 newydd ar ansawdd aer a seinwedd yn cael ei baratoi yn ystod tymor y Cynulliad hwn. Bydd y TAN 11 newydd yn cefnogi'r ffocws sydd yn PCC ar greu lleoedd drwy fynd i'r afael yn benodol ag ansawdd aer, seinwedd a sŵn. Diben y papur hwn yw cyflwyno cais am dystiolaeth i gefnogi'r gwaith o baratoi TAN newydd.

Mae cwmpas y cais am dystiolaeth wedi'i gyfyngu i wybodaeth, safbwyntiau a thystiolaeth sy'n ofynnol i lywio datblygiad y TAN ac i helpu i weithredu'r polisi cynllunio presennol yn PCC o ran ansawdd aer, seinwedd a sŵn. Nid bwriad y cais hwn am dystiolaeth yw ailystyried y safbwynt polisi a gyhoeddwyd yn PCC, a fydd yn parhau fel y'i drafftiwyd.

Bydd yr wybodaeth a'r dystiolaeth a ddaw i law yn cael eu rhoi ynghyd ac yn llywio'r ffordd y caiff y TAN newydd ei lunio. Ni chynigir cyhoeddi'r wybodaeth hon nac ymateb iddi yn benodol fel yw'r achos yn y rhan fwyaf o ymarferion ymgynghori. Yn hytrach, bydd yr wybodaeth sy'n dod i law yn cael ei defnyddio wrth baratoi'r TAN newydd drafft, a fydd ynddo'i hun yn destun ymgynghoriad yn 2020. Ar yr adeg hon, bydd crynodeb o'r dystiolaeth a'r wybodaeth a ddaw i law yn sgil y cais am dystiolaeth hwn yn cael ei gyhoeddi.

Ar yr un pryd â'r cais hwn am dystiolaeth, bydd Gweinidogion Cymru yn ymgynghori ar Gynllun Aer Glân newydd i Gymru. Bydd y ddau ymarfer hyn yn gorgyffwrdd ac mae'n debygol y bydd cysylltiadau rhwng y materion yn dod i'r amlwg. Fodd bynnag, er gall digwyddiadau ymgynghori ar y Cynllun Aer Glân hwyluso ymatebion i'r cais hwn am dystiolaeth sy'n hoelio sylw ar gynllunio, maent yn ymarferion ar wahân ac fe anogir ymatebwyr i ymateb yn benodol i'r cwestiynau a amlinellir isod gan wneud hynny ar y Ffurflen Ymateb i Ymgynghoriad Cais am Dystiolaeth sy'n gysylltiedig â'r ddogfen hon.

Polisi Cynllunio Cymru a chreu lleoedd

Mae'r ffocws ar greu lleoedd yn PCC yn golygu y dylid ystyried testunau polisi megis ansawdd aer, sŵn a seinwedd ochr yn ochr â thestunau polisi perthnasol eraill wrth baratoi cynlluniau datblygu, a llunio cynigion cynllunio a phenderfynu arnynt. Dylid llunio strategaethau cynlluniau datblygu, polisïau a chynigion datblygu i warchod a gwella nodweddion arbennig a phriodweddau amgylcheddol cynhenid lleoedd oherwydd eu bod yn gwneud lleoedd yn fwy deniadol a bywiog ac yn lleoedd gwell i fyw ynddynt. Maent hefyd yn gwella cadernid, gweithrediad, ffyniant economaidd ac, yn y pen draw, iechyd, amwynder a llesiant y lleoedd hynny.

Mae'r polisi cynllunio mewn perthynas ag ansawdd aer, seinwedd a sŵn yn pwysleisio'r gofyniad i sicrhau cyfleoedd fel rhan o'r broses gynllunio, yn hytrach nag osgoi'r effeithiau mwyaf negyddol yn unig. Bellach, nid yw'n dderbyniol ystyried ansawdd aer a sŵn yn faterion technegol yn unig i'w lliniaru ar ddiwedd y broses, yn hytrach maent yn rhan annatod o ddyluniad, gweithrediad, iechyd, amwynder a llesiant lleoedd. Yn unol â hynny, dylid defnyddio dull integredig wrth lunio strategaethau a chreu cynigion ar gyfer lleoedd sy'n cynnwys y rheini sy'n ymwneud ag ansawdd aer a seinwedd.

Gwella ansawdd yr aer

Mae ansawdd aer da yn hanfodol i fywyd, iechyd, yr amgylchedd a'r economi. Mae pobl yn anadlu llygredd aer yn y lleoedd y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt ac yn y lleoedd lle y maent yn treulio eu hamser hamdden. Mae costau cymdeithasol ac amgylcheddol difrifol yn gysylltiedig â llygredd aer ac mae hefyd yn gallu effeithio'n negyddol ar dwf economaidd, drwy ei effaith ar iechyd, ac felly ar gynhyrchiant pobl oedran gweithio.

Er bod ansawdd aer awyr agored yng Nghymru wedi gwella'n raddol dros y degawdau diwethaf, mae dal i fod y risg amgylcheddol fwyaf i iechyd y cyhoedd yn y DU gyda llygredd aer yn gyfrifol am ryw 28,000 - 36,000 o farwolaethau'r flwyddyn[1]. Mae pobl sydd eisoes yn dioddef o gyflyrau anadlol a chyflyrau'r galon, pobl ifanc, a phobl hŷn yn arbennig o fregus i effeithiau andwyol llygredd aer ar eu hiechyd. Mae'n bosibl bod y risg yn uwch i eraill hefyd, megis pobl sy'n gweithio mewn lleoedd llygredig neu'n teithio i'r gwaith drwy ardaloedd trefol lle y mae llawer o dagfeydd.

[1] Adolygiad o ymyriadau i wella ansawdd aer awyr agored ac iechyd y cyhoedd, Public Health England © Hawlfraint y Goron 2019

Rydym yn hen gyfarwydd â ffynonellau llygredd aer awyr agored. Maent yn cynnwys trafnidiaeth a'r tanwyddau a ddefnyddir ar gyfer trafnidiaeth, yn enwedig cerbydau ffordd ond hefyd trenau, llongau ac awyrennau. Maent hefyd yn cynnwys diwydiant, amaethyddiaeth ac allyriadau o gartrefi a busnesau. Fodd bynnag, mae ffynonellau llygredd aer yn gallu amrywio'n fawr yn ôl ardal a rhaid dod o hyd i atebion i fynd i'r afael ag ansawdd aer gwael ar lefel leol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Caiff fframwaith presennol y polisi ansawdd aer yn y DU ei lywodraethu gan ddeddfwriaeth a pholisïau domestig, Ewropeaidd a rhyngwladol. Mae ansawdd aer yn fater datganoledig ac mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn sicrhau bod eu polisïau yn bodloni cytundebau rhyngwladol ac Ewropeaidd.

Bydd polisi ansawdd aer Cymru yn y dyfodol yn seiliedig ar ein Cynllun Aer Glân sydd wedi'i ddatblygu yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y byddwn yn cydweithio ar draws y Llywodraeth, yn genedlaethol ac yn lleol, gyda'r sectorau busnes, gwirfoddol a chymunedol a'r cyhoedd i leihau llygredd aer i wella iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd.

Ar lefel leol, mae rhwymedigaeth ar awdurdodau lleol dan Ran IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i adolygu ac asesu ansawdd aer, gan lunio cynlluniau gweithredu pan fo amcanion ansawdd aer[2] yn cael eu torri neu'n debygol o gael eu torri. Yn yr ardaloedd hyn lle y mae ansawdd yr aer yn wael, rhaid iddynt ddatgan ardal rheoli ansawdd aer (AQMA) a rhaid datblygu cynllun gweithredu ar ansawdd aer. Anogir awdurdodau lleol i edrych ar atebion hirdymor i achosion o dorri amcanion ac i sicrhau bod pobl yn anadlu cyn lleied o lygredd aer ag sy'n rhesymol ymarferol. Wrth osod ymrwymiadau ar awdurdodau cynllunio i ystyried ansawdd aer, mae'n bwysig ein bod yn llwyr ystyried y berthynas rhwng yr ymrwymiadau hyn â'r system Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol, a'r hyn y bydd yn ei olygu i awdurdodau lleol.

Polisi Sŵn a Seinwedd

Bob munud o bob dydd, hyd yn oed pan ydym yn cysgu, mae ein llesiant yn dibynnu ar y synau niferus sydd o'n hamgylch.

Gall sŵn, sef sain ddiangen neu niweidiol, yn y tymor byr, amharu ar gwsg a chynyddu lefelau straen, dicter a blinder, yn ogystal â tharfu ar weithgareddau pwysig megis dysgu, gweithio ac ymlacio. Mewn geiriau eraill, mae'n gwaethygu ansawdd ein bywydau. Gall clywed synau uchel achosi niwed i'r clyw, tra gall glywed sŵn dros amser hir gynyddu'r risg o gael clefydau sy'n gysylltiedig â phwysedd gwaed uchel a chlefyd cardiofasgwlaidd.

Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18, mae sŵn y tu allan i'w cartrefi yn poeni 24% o bobl yng Nghymru yn rheolaidd. O'r rheini, dywedodd:

- 36% fod y sŵn wedi'i achosi gan gymdogion yn eu cartrefi;
- 47% ei fod wedi'i achosi gan gymdogion y tu allan i'w cartrefi; a
- 45% ei fod wedi'i achosi gan draffig, busnesau neu ffatrïoedd.

[2] Mae'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol wedi'u nodi yn Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) 2002.

Mae pobl yn fwy tebygol o gael eu poeni gan sŵn mewn ardaloedd trefol nac mewn ardaloedd gwledig. Mae pobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol neu dai rhent preifat yn fwy tebygol o gael eu poeni gan sŵn na phobl sy'n berchen ar eu cartref eu hunain. Mae pobl sy'n byw mewn fflatiau, yn enwedig fflatiau sydd wedi'u haddasu, yn fwy tebygol o gael eu poeni gan sŵn na'r rheini sy'n byw mewn cartrefi sengl neu bâr, ac mae pobl yn fwy tebygol o gael eu poeni gan sŵn os ydynt yn byw mewn aelwydydd o amddifadedd materol neu mewn ardaloedd o amddifadedd. Mae pobl sy'n berchen ar eu heiddo eu hunain yn fwy tebygol o gael eu poeni'n rheolaidd gan sŵn traffig, busnesau neu ffatrïoedd o gymharu â phobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol, ond mae sŵn cymdogion yn fwy tebygol o boeni pobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol[3].

Yn ôl Sefydliad Iechyd y Byd, sŵn amgylcheddol yw'r ail ffactor amgylcheddol mwyaf sy'n cyfrannu at y baich clefydau yn Ewrop ar ôl llygredd aer. Mae ein mapiau sŵn ein hunain[4] yn awgrymu bod mwy na 200,000 o bobl ar draws Cymru yn clywed lefelau sŵn traffig ffordd sy'n uwch na chanllawiau 2009 Sefydliad Iechyd y Byd ar sŵn yn ystod y nos[5].

Down i'r casgliad, felly, ar sail y dystiolaeth hon, fod sŵn yn effeithio'n sylweddol ar lesiant ein dinasyddion, ac mae'n rhaid inni wella'r ffordd y caiff penderfyniadau eu gwneud yn y maes hwn. Ond y peth olaf y mae Llywodraeth Cymru ei eisiau yw Cymru hollol ddistaw. Mae sgyrsiau, chwerthin a bloeddio cymeradwyaeth, cerddoriaeth a synau byd natur yn cyfoethogi ein bywydau. Mae amgylchedd acwstig iach yn fwy nag un sydd heb sain diangen yn unig, a rhaid i'r ffordd y rheolir sŵn gael ffocws ehangach na lleihau desibelau yn unig. Mae angen inni greu seinweddau priodol[6], hynny yw, yr amgylchedd acwstig iawn yn y man iawn ar yr adeg iawn. Mae'r trefi a'r dinasoedd lle y mae'r rhan fwyaf ohonom yn byw yn ein gwasanaethu mewn ffyrdd amrywiol, ac felly dylent gynnwys amrywiaeth o seinweddau sy'n briodol i'r lle. Ni ddylem glywed yr un seinwedd ym mhob tref yn yr un modd na ddylai pob stryd ac adeilad edrych yn debyg.

Y Cynllun Gweithredu ynghylch Sŵn a Seinwedd 2018-2023[7] yw'r brif ddogfen bolisi ar sŵn yng Nghymru. Mae'n nodi disgwyliad Llywodraeth Cymru y dylai cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ddilyn y pum ffordd o weithio yn y Ddeddf wrth reoli sŵn a seinwedd. Golyga hyn:

- Ceisio dod o hyd i atebion hirdymor i unrhyw achosion presennol o niwsans sŵn;
- Ceisio rheoli sŵn a seinweddau wrth gyflawni canlyniadau cysylltiedig eraill;
- Manteisio ar gyfleoedd i sôn wrth y cyhoedd am yr heriau sy'n gysylltiedig ag amlygiad i sŵn a seinweddau afiach, gwrando ar eu pryderon a cheisio eu barn ar atebion posibl a'u cynnwys yn y gwaith o'u cyflawni;

[3] Gweler Atodiad B y Cynllun Gweithredu ynghylch Sŵn a Seinwedd 2018-2023 am ddadansoddiad manylach o ganlyniadau'r cwestiwn ar sŵn yn yr Arolwg Cenedlaethol.
[4] http://lle.gov.wales/map/llygreddawyrol#b=europa&l
[5] Am ragor o wybodaeth am effeithiau sŵn, gweler Pennod 1 o'r Cynllun Gweithredu ynghylch Sŵn a Seinwedd.
[6] https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-swn-seinwedd-2018-i-2023?_ga

- Gweithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol er budd pawb wrth gyflawni'r canlyniadau dymunol; a
- Chadw lefelau amlygiad i sŵn (hynny yw, sain ddiangen neu niweidiol) mor isel ag sy'n rhesymol bosibl yn y boblogaeth gyfan, gan gadw golwg yn benodol am ardaloedd lle y gallai lefelau sŵn fod yn ddigon uchel i gyfiawnhau sefydlu niwsans statudol neu ardal blaenoriaeth cynlluniau gweithredu ynghylch sŵn, neu lle y gallai sŵn amharu ar amwynder y cyhoedd rywbryd yn y dyfodol, a chymryd camau rhagataliol er mwyn sicrhau na fydd y pethau hynny'n digwydd.

Mae'r cynllun gweithredu yn dweud drwy ddiffinio sŵn amgylcheddol fel llygrydd a gludir yn yr awyr o fewn ein Rhaglen Aer Glân, byddwn yn creu cyfleoedd, ac yn ceisio nodi unrhyw gyfleoedd, i gysoni polisïau a rheoliadau sŵn/seinwedd a pholisïau a rheoliadau ansawdd aer yng Nghymru ymhellach dros y pum mlynedd nesaf, er mwyn sicrhau bod nifer o fanteision yn deillio o'n camau gweithredu.

Ymateb i'r cais hwn am dystiolaeth

Fel yr amlinellir uchod, mae cwmpas y cais am dystiolaeth hwn wedi'i gyfyngu i'r hyn sydd ei angen i weithredu PCC a pharatoi TAN newydd. Wrth gyflwyno'r cais hwn am dystiolaeth, mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb arbennig mewn amlygu'r gwahaniaethau rhwng y dulliau o greu cynllun mewn perthynas ag ansawdd aer a seinwedd a'r dulliau sydd fwy perthnasol i lunio cynigion penodol a phenderfynu arnynt.

Camau gweithredu strategol effeithiol drwy gynlluniau datblygu

I greu lleoedd yn effeithiol, mae angen ystyried materion sy'n ymwneud â chreu lleoedd ar y cyd ac yn gynnar yn y broses o lunio cynllun strategol. Ni ddylid ystyried testunau polisi cynllunio ar eu pennau eu hunain ac mae'r un mor bwysig bod cynlluniau yn creu cyfleoedd i wella nodweddion a phriodweddau cynhenid lleoedd fel ag y maent er mwyn osgoi effeithiau negyddol ar yr amgylchedd, cymdeithas, diwylliant neu'r economi.

Cydnabyddir y gall y polisi newydd ar ansawdd aer, seinwedd a sŵn yn PCC gyflwyno heriau i greu cynllun a gallai canllawiau manwl pellach fod yn ddefnyddiol. Drwy'r cais hwn am dystiolaeth, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i geisio barn a chael tystiolaeth a fyddai'n hwyluso dull o weithio ystyrlon a chymesur ar gam cynllun datblygu yn unol â'r polisi yn PCC. Gallai hynny gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i:-

- enghreifftiau o arferion da yng Nghymru neu mewn man arall lle y mae ansawdd aer a/neu seinwedd wedi chwarae rhan mewn datblygu strategaethau cynlluniau ar gyfer lleoli datblygiad newydd neu hwyluso dull o greu lleoedd fel rhan o'r broses o lunio cynllun;
- enghreifftiau o arferion da yng Nghymru neu mewn man arall lle y mae atebion lliniaru ehangach wedi'u datblygu i leihau llygredd aer a sŵn a/neu i osgoi gwaethygu problemau presennol o ran ansawdd aer neu seinwedd fel rhan o ddatblygiad strategaethau ar gyfer lleoli datblygiad newydd neu o ran hwyluso dull o greu lleoedd;

- safbwyntiau ar natur a chwmpas gwybodaeth am ansawdd aer a seinwedd a/neu dystiolaeth sy'n ofynnol i helpu i greu cynllun yn effeithiol;
- safbwyntiau ar sut y dylid defnyddio tystiolaeth a/neu wybodaeth sy'n ymwneud ag ansawdd aer a seinwedd ochr yn ochr â thystiolaeth angenrheidiol arall i helpu i greu cynllun yn effeithiol a sut y gellid defnyddio'r dystiolaeth hon mewn ffordd integredig i hwyluso canlyniadau gwell o ran creu lleoedd; ac
- unrhyw gymorth a chanllawiau manwl eraill mewn perthynas ag ansawdd aer a seinwedd a allai fod o fudd i greu cynllun yn effeithiol ac nad ydynt yn dod o dan a)-d) uchod.

Cynigion datblygu a rheoli datblygu

Mae PCC yn hoelio sylw ar gyflawni canlyniadau o ansawdd da, o ran y dewisiadau a wneir o ran lleoliad a dyluniad. Dylai'r nod fod gwneud dewisiadau cynaliadwy sy'n sicrhau'r cyfraniad mwyaf at y nodau llesiant a'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yn y bôn, mae dylunio da yn golygu bod perthynas rhwng holl elfennau'r amgylchedd adeiledig a naturiol a rhwng pobl a lleoedd. Er bydd lliniaru yn parhau i fod yn ystyriaeth angenrheidiol, y pwyslais yn PCC yw sicrhau bod cynigion yn cael eu lleoli a'u dylunio'n well yn y lle cyntaf. Mae PCC yn ei gyfanrwydd yn cynnwys polisi eang ac amrywiol sy'n ymwneud â'r nodau hyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno gweld gwell canlyniadau sydd ag iechyd a llesiant yn ganolog iddynt. Gofynnir am safbwyntiau ar y ffordd orau o weithredu'r polisi creu lleoedd o ran ansawdd aer a seinwedd, yn ogystal â sŵn, ar y lefel datblygu cynnig/rheoli datblygu. Gallai hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i:-

- enghreifftiau o arferion cynllunio da yng Nghymru neu mewn man arall sydd â'r nod o leihau, osgoi neu liniaru effeithiau llygredd a gludir drwy'r awyr;
- enghreifftiau o arferion da yng Nghymru neu mewn man arall lle y mae'r gwaith dylunio wedi'i ddefnyddio'n effeithiol i leihau, osgoi neu liniaru effeithiau llygredd a gludir drwy'r awyr;
- enghreifftiau o fesurau lliniaru llwyddiannus yn cael eu pennu fel rhan o geisiadau cynllunio ac enghreifftiau o'r mesurau hynny'n cael eu gweithredu'n effeithiol;
- natur a chwmpas gwybodaeth a/neu dystiolaeth ar ansawdd aer a seinwedd i helpu i wneud penderfyniadau effeithiol ar geisiadau cynllunio;
- unrhyw wybodaeth neu farn am y rhwystrau, rhai a ganfyddir neu rai ymarferol, rhag cyflawni gwell canlyniadau dylunio a lliniaru effeithiol; ac
- unrhyw gymorth a chanllawiau manwl eraill mewn perthynas ag ansawdd aer a seinwedd a allai fod o fudd i sicrhau gwell canlyniadau o ran creu lleoedd drwy reoli datblygu nad ydynt yn dod o dan f)-j) uchod.

Amaethyddiaeth ddwys

Bydd y cais hwn am dystiolaeth yn helpu'n benodol i baratoi TAN 11 newydd. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymrwymedig i baratoi TAN ar Gynllunio ar gyfer Amaethyddiaeth Ddwys. Mae Gweithgor Amaethyddiaeth Ddwys wedi'i sefydlu i gefnogi'r broses hon.

Mae'r ffermydd sy'n ymgymryd ag arferion magu a ffermio dwys yn ehangu o ran nifer a maint. Caiff hyn ei ysgogi gan newidiadau i amodau'r farchnad ac arferion rheoli ffermydd ac mae'n bosibl y bydd yn cynyddu o gofio'r ansicrwydd y mae'r sector ffermio yn ei wynebu yn sgil ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd. Mae Iechyd y Cyhoedd Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru, gyda'i gilydd ac yn unigol, yn derbyn ymholiadau ynghylch effeithiau posibl ffermio dwys ar iechyd a'r amgylchedd.

Bydd y Gweithgor yn nodi ystod yr ystyriaethau arwyddocaol y dylai awdurdodau cynllunio lleol eu hystyried wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, gan gynnwys dulliau priodol o asesu effeithiau nodweddiadol. Bydd y Gweithgor hefyd yn nodi ac yn argymell pa ffynonellau parhaol o gyngor allanol sydd ar gael i awdurdodau cynllunio lleol mewn perthynas â pharatoi cynllun datblygu a phenderfynu ar geisiadau cynllunio.

Caiff safbwyntiau cyffredinol ar amaethyddiaeth ddwys eu hystyried fel rhan o waith y Gweithgor hwn ac ni ofynnir amdanynt yn benodol fel rhan o'r cais hwn am dystiolaeth. Fodd bynnag, os oes enghreifftiau o arferion da mewn perthynas â chynllunio ac amaethyddiaeth ddwys ac effeithiau llygredd a gludir drwy'r awyr (aer a sŵn), byddwn yn falch o gael gwybod amdanynt drwy'r cais hwn am dystiolaeth a byddant yn cael eu trosglwyddo i'r Gweithgor.

Y Camau Nesaf

Bydd y cais am dystiolaeth yn agor ar 10 Chwefror 2020 a gofynnir am safbwyntiau erbyn 4 Mai 2020. A fyddech cystal ag ymateb drwy ddefnyddio Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad Cais am Dystiolaeth.

Ar ôl cael yr ymatebion, bydd gwaith yn cael ei wneud i baratoi TAN drafft a fydd ynddo'i hun yn destun ymgynghoriad. Bwriedir y bydd fersiwn derfynol ddrafft o'r TAN newydd yn cael ei chyhoeddi cyn diwedd tymor y Cynulliad hwn.